

OpenDoor

Rhifyn 18

Y Cylchgrawn ar gyfer ffrindiau a chefnogwyr Y Brifysgol Agored

It's going
to help me
so much

You've gone
above and
beyond
so thank you

I feel much
better after
reaching out

I am
absolutely
delighted,
overwhelmed
and humbled

THIS WILL
HELP ME
MORE THAN
YOU CAN
EVER IMAGINE

This will
make a
huge difference
to me

Thank you
so much for
your help!
😊

I AM
VERY
GRATEFUL!

I'm so
pleased
I have help

**CHI SY'N GWNEUD Y
GWAHANIAETH**

Yn y rhifyn hwn o **Open Door**

3

Cronfa Dyfodol Agored

Pam mae'r dyfodol yn fwy disglair i gynifer o fyfyrwyr – diolch i deulu'r Brifysgol Agored.

4

Gofalu am y rhai sy'n gofalu am eraill

Mae Dawn a Claire, sy'n cael cyllid drwy Ysgoloriaethau Gofalwyr, yn rhannu'r hyn y mae eich cymorth yn ei olygu iddyn nhw a'u teuluoedd.

6

Rhoi yn ôl i arwyr

Sut rydych yn galluogi cyn-filwyr anabl fel Kate i drawsnewid eu dyfodol drwy addysg.

7

Helpu rhagor o fyfyrwyr i lwyddo

Pam mae bwrsariau arloesol yn hanfodol i alluogi pawb mewn cymdeithas i lwyddo.

8

Llinell bywyd drwy'r pandemig

Sut mae'r Gronfa Cynorthwyo Myfyrwyr yn helpu miloedd o fyfyrwyr pan fydd ei angen arnynt fwyaf.

9

Cefnogi arweinwyr y dyfodol

Mae Vicky, sy'n cael cyllid drwy Gronfa Arweinwyr y Dyfodol, yn sicrhau newid cadarnhaol yn ei busnes a thu hwnt.

10

Grym dolydd gorlifdiroedd

Sut y gallai un o bartneriaethau'r Brifysgol Agored i adfer dolydd fod yn allweddol wrth amddiffyn rhag newid yn yr hinsawdd.

11

Trawsnewid bywydau drwy addysg

Pam mae cymynroddion mor werthfawr i gefnogi dysgwyr y dyfodol.

12

Mae ar eich prifysgol eich angen chi!

Ymunwch â ni ar gyfer Diwrnod Rhoi cyntaf Y Brifysgol Agored.

Diolch gan ein myfyrwyr

Ar y clawr, mae myfyrwyr sy'n cael cyllid drwy'r Gronfa Dyfodol Agored yn diolch am gymorth teulu'r Brifysgol Agored.

Diolch am wneud gwahaniaeth i filoedd o fywydau

Croeso i'ch rhifyn diweddaraf o Drws Agored. Er gwaethaf heriau parhaus, mae cymuned cyn-fyfyrwyr a chefnogwyr y Brifysgol Agored wedi dod ynghyd, dro ar ôl tro dros y flwyddyn ddiwethaf, er mwyn helpu i sicrhau bod addysg yn parhau yn agored i bawb. Yn ystod cyfnodau anodd, rydych yn rhoi gobaith i fyfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr y Brifysgol Agored.

Mae eich cymorth yn galluogi'r Brifysgol i gynnal ei waith hanfodol, gan wella cyfleoedd bywyd myfyrwyr, eu teuluoedd a chymunedau.

Mae digonedd i ddiolch i chi amdano, ac rydych wedi helpu cymaint o unigolion i newid eu bywydau dim ond yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae'r rhifyn hwn o Drws Agored yn adrodd straeon y bobl a'r prosiectau rydych yn eu cefnogi – o'u safbwynt unigryw nhw.

Yn y cylchgrawn, byddwch yn clywed gan rai o'n myfyrwyr sy'n gyn-filwyr anabl ac yn ofalwyr, sydd wedi cael ysgoloriaethau o ganlyniad i'ch cymorth chi. Mae eu straeon yn ysbrydoledig a'u dyfodol yn ddisgleiriach o ganlyniad i'ch haelioni chi. Byddwch hefyd yn dysgu am amrywiaeth o grantiau a bwrsariau'r Brifysgol, gan gynnwys y Gronfa Cynorthwyo Myfyrwyr, sy'n helpu miloedd o fyfyrwyr i ymdopi ag effeithiau parhaus y pandemig. Am bob stori y byddwch yn ei darllen, mae llawer iawn o fyfyrwyr sydd â'r un uchelgais i ddysgu a thrawsnewid eu bywydau.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am effaith eich cymorth ar y tudalennau hyn, a'r lluo o fentrau cyffrous y mae'r Brifysgol yn eu lansio i barhau i drawsnewid dyfodol unigolion.

Mae eich haelioni'n cael ei werthfawrogi'n fawr, yn enwedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac rydych wedi rhoi cymorth ar adeg pan oedd pethau'n ymddangos yn anobeithiol i lawer.

Diolch yn fawr iawn.

Karen Hart

Karen Hart
Dirprwy Gyfarwyddwr
Datblygu



Newid dyfodol un myfyriwr ar y tro



Dros y 12 mis diwethaf, mae eich rhoddion wedi helpu'r Brifysgol i ddarparu miloedd o fwrsariau ac ysgoloriaethau drwy'r Gronfa Dyfodol Agored. Erbyn i chi ddarllen y rhifyn hwn, bydd y nifer hwnnw wedi cynyddu eto. Yn y Brifysgol Agored, credwn na ddylai man cychwyn eich bywyd gyfyngu ar eich dyfodol, ac mae'r Gronfa Dyfodol Agored wrth wraidd ein cenhadaeth cyfiawnder cymdeithasol. Nod y Gronfa yw helpu i gynnig cyfleoedd sy'n newid bywydau i fyfyrwyr a allai golli allan ar addysg a'r cyfle i drawsnewid eu bywyd fel arall.

Mae'r Gronfa yn cynnwys ein Cronfa Ysgoloriaethau Cyn-fyfyrrwyr Anabl, ein Cronfa Ysgoloriaethau Gofalwyr, a'n Cronfa Cynorthwyo Myfyrwyr, ynghyd ag amrywiaeth o fwrsariau. Drwy eich haelioni chi, mae'r Gronfa Dyfodol Agored wedi cefnogi myfyrwyr sy'n wynebu cyfnodau anodd yn sgil y pandemig, ac wedi darparu rhagor o ysgoloriaethau sy'n newid bywydau i fyfyrwyr difreintiedig a oedd yn credu y byddai addysg bob amser y tu hwnt i'w cyraedd.

Rydym yn ddiolchgar iawn i chi am barhau i'n helpu i ddymchwel y rhwystrau i addysg. Mae cymaint o bobl sydd bellach yn edrych ymlaen at ddyfodol gwahanol iawn – ond mae llawer mwy o fyfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr y mae angen help arnynt hefyd. Dyna lle y gall eich cefnogaeth i'r Gronfa Dyfodol Agored wneud byd o wahaniaeth.

Dros y tudalennau canlynol, gallwch ddarllen am y bywydau rydych yn helpu i'w newid

Byddwch yn rhan o'r bennod nesaf

Rydych eisoes wedi chwarae rhan mor bwysig yn stori'r Brifysgol Agored, a byddem yn falch iawn o gael y cyfle i gydnabod eich cymorth parhaus mewn ffordd arbennig iawn. Drwy gydol 2021, os byddwch yn gwneud rhodd i'r Gronfa Dyfodol Agored ar gyfer ysgoloriaethau a bwrsariau, byddwch yn cael y cyfle i ychwanegu eich enw a neges at lyfr 'Dyfodol Agored' arbennig. Yn ogystal â helpu i lywio bywyd myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr y Brifysgol Agored drwy eich rhodd, byddwch hefyd yn mynnu eich lle yn archifau hanes y Brifysgol Agored. Bydd copi o'r llyfr hefyd yn cael ei arddangos ar gampws y Brifysgol yn Milton Keynes ac ar-lein er mwyn ysbrydoli darpar fyfyrwyr, cyn-fyfyrrwyr ac ymwelwyr.

Diolch i'r cannoedd o gyn-fyfyrrwyr sydd eisoes wedi gwneud rhodd eleni ac wedi rhannu eu negeseuon ar gyfer y llyfr.

Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, gallwch fod yn rhan o'r darn cyffrous hwn o hanes y Brifysgol Agored drwy wneud rhodd ar-lein yn:

www.open.ac.uk/donate



Gofalu am y rhai sy'n gofalu am eraill



Bob dydd, mae 6,000 yn rhagor o bobl yn y DU yn dechrau ymgymryd ag ymrwymiadu gofalu. Mae bywyd beunyddiol gofalwr di-dâl yn heriol tu hwnt, ac yn aml, bydd gofalwyr yn rhoi blaenoriaeth i anghenion a lles eu hanwyliaid dros eu hanghenion a'u lles eu hunain. Drwy roi i eraill mewn ffordd mor anhunanol, mae gofalwyr di-dâl yn aml yn gorfod rhoi'r gorau i'w swyddi neu aberthu eu breuddwydion o gael addysg uwch.

Credwn y dylai pawb gael y cyfle i newid eu bywyd drwy ym addysg. Rydym yn ddiolchgar iawn bod cynifer

ohonoch yn rhannu'r gwerthoedd hyn ac yn parhau i gefnogi Cronfa Dyfodol Agored y Brifysgol Agored, sy'n cynnwys y Gronfa Ysgoloriaethau Gofalwyr. Diolch i gymuned wych y Brifysgol Agored a chymorth gan bartneriaid corfforaethol megis CareTech Foundation, Hallmark Foundation a Merck KGaA, mae 50 o ofalwyr wedi cael ysgoloriaethau ac wedi dechrau astudio gyda ni ers mis Hydref 2020. Ni allwn ddiolch i chi ddigon am eich cefnogaeth. Darllenwch am Claire a Dawn i weld pa wahaniaeth y gall eich cefnogaeth ei wneud.

'Dwi am ddangos i fy mhlant bod unrhyw beth yn bosibl'

"Fy enw yw Claire, ac rwy'n astudio ar gyfer gradd gyda'r Brifysgol Agored ers 2020. Cafodd fy merch ei geni gydag anabledd, a bu'n rhaid i mi roi'r gorau i weithio ac, yn y pen draw, ymroi'n llwyr i fod yn fam, yn ffisio a diwallu ei hanghenion.

Mae wedi cael llawdriniaeth sylweddol ac wedi treulio misoedd ar y tro yn yr ysbyty, ond er gwaethaf diagnosis y meddyg na fyddai byth yn cerdded, yn bwyta nac yn yfed yn iawn eto, mae hi wedi herio'r holl ddisgwyliadau. Mae gen i ddau o blant eraill y mae angen i mi fod yno iddyn nhw hefyd, ac er eu bod nhw'n hŷn, mae angen llawn cymaint o gymorth arnyn nhw, ond mewn ffyrdd gwahanol.

Wrth i fy merch ddod yn hŷn, dechreuais feddwl am ddychwelyd i'r gwaith. Oherwydd ei hanghenion, mae'n anodd iawn ymrwymo i rôl oherwydd yr holl amser y mae angen i mi ei gymryd i ffwrdd er mwyn helpu i ofalu amdani. Drwy lwc, llwyddais i ddod o hyd i rôl hyblyg gydag elusen sy'n cefnogi plant ag anableddau. Dechreuais weithio gyda phlant a oedd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol ac a oedd yn arddangos ymddygiadau gofidus. Llwyddais i feithrin perthynas agos â'r plant hyn a magu eu hyder er mwyn ceisio eu helpu i ddychwelyd i'r ysgol. Fodd bynnag, doeddwn i ddim wir yn gallu deall y rhesymau dros eu hymddygiadau yn iawn am nad oedd gennyf y cefndir na'r wybodaeth academaidd angenrheidiol.

Ar ôl cwblhau cwrs a dod yn ymarferydd Ffynnu, dechreuais ddeall y plant hyn yn well, ac roedd hyn yn agoriad llygad go iawn i mi. Meddyliais 'os galla i wneud hyn, galla i barhau i ddysgu', a phenderfynais wneud cais i Gronfa Ysgoloriaethau Gofalwyr y Brifysgol Agored.



Dechreuais astudio ym mis Hydref 2020, ac rwy'n gobeithio defnyddio'r cymhwyster hwn i wireddu fy mreuddwyd o fod yn seicolegydd plant.

Mae'r ysgoloriaeth wedi rhoi'r cyfle i mi ymfalchïo yn fy ngallu i gyflawni rhywbeth, ac mae wedi rhoi'r cyfle i mi gefnogi plant ar adeg heriol iawn. Po fwyaf o wybodaeth y byddaf yn ei dysgu, y mwyaf o bobl y gallaf eu cefnogi, gan gynnwys yn fy nghartref fy hun. Po fwyaf y gallaf fod yno i fy merch pan fydd hi'n mynd drwy gyfnod anodd, gorau oll.

Bydd cwblhau'r cymhwyster hwn yn golygu bod fy nheulu yn well ei fyd yn ariannol, a bydd yn helpu fy mhlant i sylweddoli na ddylent fyth amau'r hyn y gellir ei gyflawni, ni waeth pa sefyllfaoedd y mae'n rhaid i ni ddelio â nhw bob dydd. Mae angen i mi fod yn fodel rôl i fy mhlant. Yn anffodus, mae sawl un wedi rhoi label ar fy merch oherwydd ei hanabledd, ond ni fydd hynny byth yn ei diffinio.

Er bod astudio wedi bod yn heriol, rwy'n gwybod po fwyaf y byddaf yn herio fy hun, y gorau y byddaf yn y pen draw. Mae effaith yr ysgoloriaeth hon yn anhygoel, oherwydd mae'n fy ngalluogi i fod ynof fi fy hun unwaith eto, ond drwy wneud hynny, mae hefyd yn cefnogi fy nheulu a fy mhlant mewn cymaint o ffyrdd, sy'n wirioneddol wych."

STORI DAWN

'Bydd eich cymorth yn newid fy mywyd am byth'

"Fy enw i yw Dawn*, ac rwy'n ofalwr di-dâl amser llawn sydd wrthi'n astudio Llenyddiaeth Saesneg gyda'r Brifysgol Agored. Pan sylweddolais fod fy nghais i'r Gronfa Ysgoloriaethau Gofalwyr wedi cael ei dderbyn, roeddwn yn fy nagrau. Roeddwn am ddweud wrthyf chi am fy nhaith hyd yma, a pham mae'r ysgoloriaeth yn golygu'r byd i mi.

Dechreuais yn y brifysgol pan oeddwn yn 18 oed, ac roedd fy myrd ar fod yn athrawes, ond gadawais pan waethygodd iechyd mam. Roedd hi'n dioddef o PTSD a gorbryder heb eu trin ar ôl cael ei cham-drin yn ddomestig, a dechreuodd yfed yn drwm fel ffordd o ymdopi. Roedd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn anodd, ond roeddwn yn benderfynol o wneud popeth o fewn fy ngallu i wneud yn siŵr bod mam yn cael y gofal a'r cariad y mae'n eu haeddu.

Ers mis Ebrill 2019, rwyf wedi bod yn ofalwr di-dâl amser llawn iddi, ac rwy'n gofalu amdani bob awr o'r dydd, saith diwrnod yr wythnos, gyda chyfnodau achlysurol o seibiant. Oherwydd y niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol i'w hymennydd, mae gan mam symptomau sy'n debyg i ddementia, gall hefyd ymddwyn yn ddifriol ac yn ymosodol, ar lafar ac yn gorfforol, sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn cael y gofal seibiant iawn.

Er gwaethaf hyn i gyd, ers i mi fod gartref yn gofalu amdani, mae hi wedi magu pwysau ac rwyf wedi llwyddo i gael y meddygon i newid ei meddyginiaethau fel bod ganddi fwy o reolaeth dros ei hemosiynau, sy'n golygu ein bod yn cael mwy o ddyddiau da na gwael. Weithiau mae niwl salwch mam yn clirio, ac rydyn ni'n gallu mwynhau adegau gyda'n gilydd fel roeddwn ni'n arfer ei wneud. Yn anffodus, rwy'n gwybod y bydd yr adegau arbennig hyn yn mynd yn fwy prin wrth i amser fynd rhagddo, felly rwy'n gafael yn dynn ynddyn nhw bob tro. Mae'r cariad sydd gennyf at mam a'r berthynas arbennig a oedd rhyngom ni cyn iddi fynd yn sâl yn fy nghynnal hyd yn oed drwy'r adegau mwyaf anodd.

Dros y deng mlynedd diwethaf, rwyf wedi aberthu cymaint (fy ngradd, dwy swydd, sicrwydd) er mwyn gofalu am mam, ac er y bu'n gyfnod anodd, byddwn i bob amser yn ei rhoi hi'n gyntaf, gan ei bod hi'n golygu'r byd i mi. Cyn i mam fynd yn sâl, gweithiodd yn galed iawn yn ei swydd er mwyn rhoi'r cyfle i mi fynd i'r brifysgol. Fi fyddai'r person cyntaf yn fy nheulu i gael gradd drwy'r ysgoloriaeth hon, ac rwy'n gwneud hyn dros mam, yn ogystal â drosof fi fy hun. Mae gan mam ffrâm llun yn barod ar gyfer y llun eiconig ohonof i yn fy nghap a'm gŵn ar fy niwrnod graddio, ond yn anffodus, mae'n dal i fod yn wag.

Diolch i gefnogwyr ein Cronfa Ysgoloriaethau Gofalwyr

- CareTech Foundation
- Hallmark Foundation
- Merck KGaA
- Santander UK
- Ymddiriedolaeth Elusenol Bronwen a Brian Mills
- The Irving Memorial Trust

A dros 7,000 o gyn-fyfyrwyr, cyfeillion a chefnogwyr y Brifysgol Agored

Mae'r Gronfa Ysgoloriaeth Gofalwyr yn fy ngalluogi i gredu y gallwn wireddu'r breuddwydion y bu'n rhaid i mi eu haberthu pan aeth mam yn sâl, a dilyn yr yrfa broffesiynol y gwnaeth hi bob amser ei dychmygu ar fy nghyfer. Rwyf am roi'r llun graddio hwnnw iddi, oherwydd rwy'n gwybod y bydd yn ei gwneud hi'n falch.

Pan fyddwch chi'n gofalu am rywun agos atoch, mae'n hawdd iawn rhoi'r gorau i fod ynoch chi eich hun. Diolch am y cyfle hwn i deimlo'n fyw, cael ail gyfle ac adfer rheolaeth dros fy mywyd. Rwy'n benderfynol o lwyddo. Mae'r ysgoloriaeth hon wedi rhoi'r gobai i mi y byddaf un dydd yn gwireddu fy mreuddwydion o fod yn athrawes Saesneg wych.

Rwy'n falch fy mod wedi bod yn ddigon dewr i wneud cais i'r Gronfa Ysgoloriaethau Gofalwyr. Diolch o galon i chi am wneud yr ysgoloriaeth hon yn bosibl. Mae eich cymorth wedi rhoi rhywbeth i mi a mam edrych ymlaen ato unwaith eto. Bydd y daith yn llawn anturiaethau gwych nad oeddwn i byth yn meddwl y byddwn i'n ddigon ffodus i'w cael. Bydd eich cymorth yn newid fy mywyd er gwell am byth. Os ydych yn darllen hwn, rwy'n anfon y cwts mwyaf atoch ac yn addo y byddaf yn gorffen fy ngradd â gwên."

(*Rydym wedi newid enw Dawn er mwyn diogelu ei phreifatwydd.)



Mae gennych chi'r pŵer i newid rhagor o fywydau

Ers lansio'r Gronfa Ysgoloriaethau Gofalwyr, mae mwy o ofalwyr wedi gwneud cais i astudio gyda ni nag y gallwn gynnig lleoedd ysgoloriaeth iddynt. Gyda'ch help chi, rydym yn gobeithio y gallwn gynnig mwy o leoedd ysgoloriaeth i ofalwyr yn 2021/22, fel na fydd gofalwyr fel Claire a Dawn yn colli'r cyfle i wireddu eu breuddwydion o gael addysg.



Cefnogwch ragor o ofalwyr heddiw

www.open.ac.uk/donate

Cost gofalu

Mae yna dros
8.8 miliwn
o ofalwyr yn y DU

Mae hynny'n gyfystyr
â mwy nag 1 o bob
8 o'r boblogaeth
oedolion

Mae
1 o bob 5 o ofalwyr yn rhoi'r
gorau i'w gwaith i ofalu

¹ Ffynonell: Carers UK, 2019

Rhoi yn ôl i arwyr



**CRONFA
DYFODOL
AGORED**

**YSGOLORIAETHAU
CYN-FILWYR ANABL**

Pan fydd cyn-filwyr yn cael eu hanafu neu eu hanablu wrth wasanaethu yn y lluoedd arfog neu o ganlyniad i hynny, gall addasu i fywyd bob dydd ymddangos yn amhosibl. Credwn fod y milwyr dewr hyn yn haeddu'r cymorth a'r cyfle i drawsnewid eu dyfodol. Diolch i'ch cefnogaeth barhaus i'r Gronfa Dyfodol Agored, sy'n cynnwys y Gronfa Ysgoloriaethau Cyn-filwyr Anabl, mae 160 o gyn-filwyr anabl wedi cael ysgoloriaethau i astudio gyda'r Brifysgol Agored. Mae astudio yn cynnig ffordd i'r arwyr milwrol hyn ailhyfforddi, meithrin sgiliau newydd a chymryd eu camau cyntaf tuag at wireddu breuddwydion newydd.

STORI KATE

'Rydych wedi rhoi rheolaeth i mi dros fy mywyd unwaith eto'

"Fy enw i yw Kate, ac rwyf wrthi'n astudio drwy'r Gronfa Ysgoloriaethau Cyn-filwyr Anabl. Yn 2016, cefais fy rhyddhau o'r Fyddin ar sail feddygol, gan wynebu'r realiti na fyddai'n ymarferol i mi ddychwelyd i'r un o'm proffesiynau blaenorol oherwydd fy iechyd meddwl. Cefais fy nghynghori gan fy seiciatrydd i osgoi rhagor o drawma yn fy mywyd ar bob cyfrif. Roeddwn wedi treulio'r wyth mlynedd diwethaf yn gweithio fel nyrs, a chyn hynny, bŵm yn gweithio fel swyddog yr heddlu. Roeddwn wedi treulio fy mywyd yn helpu pobl eraill. Felly, ar ôl gadael y fyddin, roeddwn yn teimlo ar goll, heb unrhyw syniad beth i'w wneud nesaf. Doedd gennyf ddim hyder ynof fi fy hun, nac mewn unrhyw agwedd ar fy mywyd mewn gwirionedd.

Doeddwn i ddim yn meddwl y byddwn i byth yn cael swydd a fyddai'n rhoi'r un ymdeimlad o gyflawniad i mi â bod yn nyrs. Felly, pan welais yr hysbysebion ar gyfer Cronfa Ysgoloriaethau Cyn-filwyr Anabl y Brifysgol Agored, meddyliais 'dyma'r cynllun!' Penderfynais wneud cais ac roeddwn yn ddiolchgar iawn, iawn o gael fy nerbyn. Yn wreiddiol, dechreuais astudio'r Gyfraith yn fy mlwyddyn gyntaf, ond rwyf wedi newid i Radd Agored erbyn hyn. Rwy'n mwynhau'r Celfyddydau a'r Dyniaethau yn fawr eleni. Ar ôl cael fy ysbyrdoli gan hyn, yn ogystal â'm rôl bresennol mewn ysgol gynradd, rwy'n bwriadu chwilio am gwrs hyfforddiant athrawon ar ôl i mi gwblhau fy ngradd.

Mae astudio wedi bod yn gymorth enfawr i ail-fagu fy hyder, ac rwy'n teimlo bod gennyf reolaeth dros fy mywyd unwaith eto. Pan gefais fy rhyddhau ar sail feddygol, roedd popeth yn fy mywyd wedi newid gymaint, ac o ganlyniad, nid oeddwn i'n meddwl y byddwn i byth yr un peth eto. Mae'r Gronfa Ysgoloriaethau Cyn-filwyr Anabl wedi fy helpu i fagu hunan-barch a hunanhyder. Mae wedi rhoi'r cyfle i mi gael swydd ystyrlon.

Mae astudio yn ystod y pandemig, ochr yn ochr ag addysgu'r plant gartref, ac yn awr wrth weithio, wedi bod yn heriol, ond mae fy astudiaethau yn sicr wedi cynnig rhywfaint o ddihangfa i mi. Yn y bôn, mae astudio'n fath o therapi i mi. Mae'n rhoi rhywbeth i mi edrych ymlaen ato. Pam gwastraffu amser yn meddwl am y pandemig pan alla i fod yn dysgu am hanes Cleopatra!

Wrth feddwl yn ôl am fy nghyfnod fel nyrs, rwy'n cofio bod pobl sydd ag ymdeimlad o ddiben, ffocws, rhywbeth i'w hysgogi, ar y cyfan yn cyflawni canlyniadau gwell. Efallai nad cynlluniau fel y Cynllun Ysgoloriaeth Cyn-filwyr Anabl o reidrwydd yw'r ateb cyfan, ond gallai fod yn rhan o'r ateb i rywun, a gallai hynny olygu'r gwahaniaeth rhwng diweddglo hapus a diweddglo trist. Mae gwella bywyd rhywun yn rhywbeth anhygoel i'w wneud, felly os gallwch helpu i gefnogi mwy o ysgoloriaethau, gwnewch hynny.

I bawb sydd wedi gwneud ysgoloriaethau fel fy un i yn bosibl, diolch yn fawr! Byddaf yn ddiolchgar am byth am y cyfleoedd rwyf wedi eu cael. Mae gwybod bod cyn-filwyr allan yno yn cael cymorth, a bod pobl sy'n barod i roi tuag at ysgoloriaethau, yn wirioneddol wych. Rwy'n ddiolchgar iawn am y cynllun hwn, a bod yna pobl hyfryd sy'n barod i gyfrannu a newid bywydau pobl. Diolch i chi i gyd!"



Kate Moth
Unigolyn sydd wedi cael ysgoloriaeth

Ni fyddai ysgoloriaethau na bwrsariau'r Brifysgol Agored yn bosibl heb gymorth parhaus teulu'r Brifysgol Agored. Mae dau o gefnogwyr corfforaethol y Gronfa Ysgoloriaethau Cyn-filwyr Anabl yn rhannu pam y mae mor bwysig i fusnesau roi rhywbeth yn ôl i'r rhai sydd wedi gwneud cymaint dros eu gwlad.

“ Pan gysylltodd y Brifysgol Agored â ni ynglŷn â noddi ei Chronfa Ysgoloriaethau Cyn-filwyr Anabl, roedd yn benderfyniad hawdd i ni ei wneud. Rydym yn teimlo'n angerddol iawn dros gefnogi ein Lluoedd Arfog, milwyr, cyn-filwyr, a'u teuluoedd, ac mae hyn wrth wraidd ethos ein Cwmni. Rydym yn falch iawn cael bod yn rhan o'r fenter hon i ddatblygu cyfoeth o dalent a sgiliau ein cyn-filwyr, a helpu i gael effaith gadarnhaol ar y rhai sydd wedi ymroi eu bywydau i ddiogelu ein cenedl.

Dr Deborah Allen
BAE Systems

“ Mae'n bleser gan Boeing gefnogi Cronfa Ysgoloriaethau Cyn-filwyr Anabl y Brifysgol Agored, sy'n newid bywydau, a chyfrannu at effaith drawsnewidiol dysgu. Mae'r rhaglen hon wrth wraidd ymdrechion Boeing i ymgysylltu â chymunedau yn y DU. Mae llawer o gyflogeion Boeing yn y DU yn gyn-filwyr neu'n filwyr gweithredol wrth gefn, ac rydym yn falch o fod yn ddeiliaid Dyfarniad Aur gan Gynllun Cydnabod Cyflogwyr y Lluoedd Arfog, ac yn un o gefnogwyr brwd Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Sir Martin Donnelly
Boeing



'Diolch yn fawr am roi mor hael'

"Fy enw i yw Steve Wilson ac efallai y byddwch yn fy nghofio o ymgyrch codi arian y Gronfa Ysgoloriaethau Cyn-filwyr Anabl y llynedd. Roeddwn am roi gwybod i chi fod cymuned wych y Brifysgol Agored wedi llwyddo i godi £115,000 ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr, gan gynnwys £44,000 mewn un wythnos yn ystod The Big Give.

Mae hyn yn anhygoel, ac mae'n golygu y bydd hyd yn oed mwy o gyn-filwyr yn cael y cyfle i astudio fel fi. Pan adawais y fyddin, roeddwn yn teimlo ar goll, ac wedi colli'r bywyd a'r ymdeimlad o berthyn a oedd mor bwysig i mi. Mae astudio drwy'r Brifysgol Agored wedi rhoi'r cyfle i mi gael dechrau newydd a chyflawni rhywbeth cadarnhaol gyda gweddill fy mywyd. Diolch i bawb sy'n gwneud hyn yn bosibl. Rydych yn rhoi goleuni i eraill ar ddiwedd y twnnel, ac rydym yn ddiolchgar tu hwnt."

Helpwch ragor o gyn-filwyr fel Kate a Steven heddiw

www.open.ac.uk/donate

Helpu rhagor o fyfyrwyr i lwyddo

**CRONFA
DYFODOL
AGORED
BWRSARIAU**

Y llynedd, rhoddodd dau o gefnogwyr hirdymor y Brifysgol Agored swm hael o £50,000 i'r Brifysgol er mwyn lansio 50 o fwrsariau i fyfyrwyr fel rhan o'r Gronfa Dyfodol Agored. Roedd Howard ac Elizabeth Brown am ddefnyddio eu rhodd i herio tangynrychiolaeth ym maes addysg uwch, gan greu bwrsariau i gefnogi myfyrwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac lleiafrif ethnig. Rydym yn falch iawn bod 50 o fyfyrwyr bellach wedi cael bwrsari o £1,000, a rennir dros y ddau dymor academaidd cyntaf, ac y gellir ei ddefnyddio i gefnogi eu costau astudio neu gostau byw eraill.

"Rydym yn gwbl ymrwymedig i agenda amrywiaeth a chynhwysiant y Brifysgol Agored," meddai Elizabeth.

"Rydym wedi gweld bod myfyrwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac lleiafrif ethnig yn aml yn cael eu tangynrychioli ym maes addysg uwch. Roedd cynllun bwrsari yn ymddangos yn ffordd dda o helpu, gan ar yr un pryd gefnogi'r gwaith ardderchog y mae'r Brifysgol Agored yn ei wneud, yn enwedig yn y maes hwn."


Mae'r Brifysgol Agored yn agored i bawb – ac mae hynny'n golygu ein bod am wneud ein gorau i sicrhau bod y Brifysgol Agored yn adlewyrchu'r gymdeithas gyfan. Mae amrywiaeth o fwrsariau Dyfodol Agored, a gefnogir mor garedig gan Howard ac Elizabeth Brown, yn rhan o ymrwymiad parhaus y Brifysgol i sicrhau y gall pob myfyrwr wireddu ei botensial yn llawn.

Gwnaethoch roi llinell bywyd i fyfyrwyr pan oedd ei hangen arnynt fwyaf



Fel un o raddedigion y Brifysgol Agored, rydych yn gwybod pa mor anodd y gall fod i gydbwyso eich astudiaethau â swydd ac ymrwymadau teuluol. I fyfyrwyr presennol y Brifysgol Agored, mae'r pandemig yn gwneud y dasg gydbwyso honno yn anoddach fyth, ac yn gwthio sawl un i'r eithaf.

Nod y Gronfa Cynorthwyo Myfyrwyr yw helpu myfyrwyr sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi. Drwy eich cymorth parhaus, gallwn barhau i fod yno pan fydd angen help llaw ar ein myfyrwyr. Mae Sarah Jones, un o raddedigion y Brifysgol Agored a Llywydd Cymdeithas y Myfyrwyr, wedi bod yn arwain y gwaith o gefnogi myfyrwyr yn ystod y pandemig, ac mae'n rhoi cipolwg i ni ar yr hyn y mae'r gronfa wedi ei olygu i dros 2,000 o fyfyrwyr yn ystod blwyddyn mor anodd.



Sarah Jones
OUSA president

"Pan ddechreuais fy ngradd Addysg gyda'r Brifysgol Agored yn 2017, ni allwn fyth fod wedi dychmygu y byddwn yn ei chwblhau yn ystod pandemig byd-eang. Fel aelod o Ddosbarth Graddedigion 2020, myfyrwr ôl-raddedig presennol a Llywydd Cymdeithas y Myfyrwyr, rwyf wedi gweld yr effaith sylweddol y mae'r pandemig wedi ei chael ar fyfyrwyr ym mhob rhan o'r

Brifysgol. Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored wedi dangos gwydnwch anhygoel, er bod sawl un ohonynt yn ei chael hi'n anoddach ymdopi nag erioed o'r blaen. Dyma lle mae'r Gronfa Cynorthwyo Myfyrwyr a'ch cefnogaeth barhaus i'r Gronfa Dyfodol Agored wedi bod mor allweddol wrth gynnig llinell bywyd i'r rhai anghenus.

Mae'r flwyddyn hon wedi effeithio ar ein myfyrwyr mewn sawl ffordd. Mae llawer yn cysylltu â ni i ddweud nad oes ganddynt yr hanfodion sydd eu hangen arnynt i astudio gartref, megis cyfrifiadur, cysylltiad â'r rhyngwyd neu argraffydd. Mae'r Gronfa yn helpu myfyrwyr i barhau i astudio ac, mewn rhai achosion, gall y pethau lleiaf wneud gwahaniaeth enfawr. Er enghraifft, cysylltodd un myfyrwr â ni i ofyn am ddim ond £4.95 i'w helpu i dalu am bapur i argraffu ei aseiniad. Drwy ofyn am swm mor fach, roedd yn gobeithio y gallai mwy o fyfyrwyr anghenus gael cymorth hefyd.

Mae myfyrwyr eraill wedi colli swyddi ac incwm yn sgil y pandemig, gan achosi pryderon iddynt o ran sut y byddant yn talu eu biliau cartref a'u rhent, neu'n talu am fwyd. Maent yn wynebu'r penderfyniad torcalonnu o orfod gwerthu eu cyfrifiaduron neu roi'r gorau i'w hastudiaethau, ar ôl i rai ohonynt dreulio blynyddoedd yn gweithio tuag at eu cymhwyster. Diolch i chi, gallwn fod yno i'r myfyrwyr hyn pan fydd ei angen arnynt fwyaf. Mae nifer y myfyrwyr sy'n cysylltu â ni yn anhygoel o uchel, ac rydym eisoes wedi darparu cymorth i fwy na 2,000 o fyfyrwyr, gyda'r nifer hwnnw'n cynyddu'n barhaus.

Ar ran y myfyrwyr hyn, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi. Mae effaith eich cymorth ar yr unigolion hyn a'u teuluoedd yn amhrisiadwy.

Dyma un o'r rhesymau pam bod ein cymuned mor wych – er nad yw llawer ohonom erioed wedi cwrrd, mae pob un ohonom yn deall faint y gall addysg newid bywydau, a dyna'r rheswm pam rydym yn dod ynghyd i gynnal ein gilydd. Mae pob un ohonoch yn anhygoel, ac mae cymuned myfyrwyr y Brifysgol Agored yn hynod o ddiolchgar."

Mae eich cefnogaeth yn bwysig

Mae mwy na

2000 o fyfyrwyr wedi cael cyllid drwy'r Gronfa Cynorthwyo Myfyrwyr

Mae'r mwyafrif o fyfyrwyr yn cael cymorth ar gyfer bwyd, biliau ac offer astudio

Mae myfyrwyr yn cael eu cefnogi yn y DU a ledled y byd

Mae myfyrwyr yn cael rhwng £5 a £750, yn dibynnu ar eu hanghenion

'Rydych wedi gwneud gwahaniaeth eithriadol'

Mae Rachel* yn un o blith miloedd o fyfyrwyr sydd wedi cael help gan y Gronfa Cynorthwyo Myfyrwyr. Yn ystod y pandemig, dechreuodd partner Rachel ymddwyn yn ddiarffiol a'i rheoli, ac roedd hi'n teimlo'n gaeth. Dywed mai ei hastudiaethau gyda'r Brifysgol Agored oedd ei hunig ddihangfa.

Erbyn Nadolig y llynedd, gwnaeth Rachel y penderfyniad dewr i adael ei phartner, a dechreuodd fyw ar ei phen ei hun. Gyda dim ond incwm un person, roedd Rachel yn ei chael hi'n anodd talu ei rhent a'i biliau, a thalu am fwyd. Roedd hefyd yn gwarchod ac yn poeni am orfod dod o hyd i lety newydd. Gwnaeth estyn allan i'r Brifysgol Agored i drafod ei phryderon, a diolch i chi, roedd yn gymwys i gael cymorth drwy'r Gronfa Cynorthwyo Myfyrwyr i dalu ei biliau uniongyrchol a sicrhau y gallai brynu bwyd iddi hi ei hun.

Dywed Rachel fod hyn wedi gwneud gwahaniaeth enfawr. Roedd yn bwysau sylweddol oddi ar ei hysgwyddau, a diolch i'r Gronfa Cynorthwyo Myfyrwyr, gallai ganolbwyntio ar ei hastudiaethau a gweithio tuag at rywbeth cadarnhaol.

Diolch am gefnogi Rachel a miloedd o fyfyrwyr eraill drwy eich haelioni.

** Rydym wedi newid enw'r myfyrwr hwn er mwyn diogelu ei phreifatrwydd*

 **Helpwch i gefnogi rhagor o fyfyrwyr sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi yn ystod y pandemig**

www.open.ac.uk/donate

Cefnogi arweinwyr y dyfodol

**CRONFA
DYFODOL
AGORED**
BWRSARIAU

**STORI
VICKY**



Mewn byd ar ôl y pandemig, bydd arweinwyr y dyfodol yn bwysicach nag erioed wrth helpu i adfer busnesau, sefydliadau a'n ffordd o fyw. Mae yna gymaint o bobl dalentog yn gweithio'n galed yn eu dewis faes a allai gyflawni hyd yn oed yn fwy pe baent yn cael y cyfle. Mae ein Cronfa Arweinwyr y Dyfodol yn rhoi ysgoloriaethau ar gyfer blwyddyn gyntaf Gradd Meistr y Brifysgol Agored mewn Gweinyddu Busnes i unigolion sydd â'r potensial ond nad oes ganddynt y modd i astudio. Drwy gefnogi'r Gronfa, gallwch helpu darpar arweinwyr i feithrin eu sgiliau fel y gallant gael effaith bellgyrhaeddol barhaus ar eu sefydliadau a'u cymuned ehangach.

Diolch i roddion gan gymuned cyn-fyfyrrwyr y Radd Meistr mewn Gweinyddu Busnes, mae saith myfyriwr wedi cael cymorth i astudio Gradd Meistr mewn Gweinyddu Busnes drwy'r Gronfa. Mae Vicky Gaillard, sydd wedi cael ysgoloriaeth yn ddiweddar, yn defnyddio ei sgiliau a'u brwdfrydedd i sicrhau newid cadarnhaol yn ei gweithle a thu hwnt.

'Heb yr ysgoloriaeth, fyddwn i byth wedi cael y cyfle i astudio ar gyfer fy Ngradd Meistr mewn Gweinyddu Busnes. Diolch!'

"Mae cael yr ysgoloriaeth yn frainc fawr. Fel sawl un, fyddwn i ddim wedi gallu fforddio astudio ar gyfer y Radd Meistr mewn Gweinyddu Busnes fy hun. Ni fyddai fy nghyflogwr wedi gallu fy noddi chwaith. Fel sefydliad nid-er-elw, mae ei holl adnoddau yn mynd tuag at helpu i ddiogelu natur a thirluniau Lloegr. Mae gweld fy sgiliau newydd, mwy penodol, yn cyfuno ag ymarferwyr gwarchod natur eraill i helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'r heriau amgylcheddol allweddol eraill y mae ein planed yn eu hwynebu, yn gwbl ysbrydoledig. Diolch am y cyfle hwn. Nid yn unig y mae Cronfa Arweinwyr y Dyfodol wedi rhoi'r cyfle i mi ymgymryd â chwrs o'r radd flaenaf, ond mae hefyd wedi rhoi hwb i'm hyder i barhau i ddatblygu yn fy ngyrfa. Rwyf wedi dysgu cymaint, ac rwyf eisoes yn cymhwyso hyn at fy arferion gweithio ac yn ei rannu o fewn fy rhwydwaith. Mae'r Gronfa hon yn rhoi hwb gwirioneddol i'r sector nid-er-elw, ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r gwaith y mae'n ei wneud. Diolch!"

A wnewch chi ein helpu i gefnogi rhagor o ddarpar arweinwyr fel Vicky?

bit.ly/supportfutureleaders

Cynlluniau peilot newydd i gefnogi myfyrrwyr ledled Cymru

Nododd y colegau feysydd sy'n aml yn atal myfyrrwyr rhag cwblhau gradd israddedig neu ôl-raddedig a lle mae myfyrrwyr yn fwy tebygol o ddod yn bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Drwy'r prosiect peilot, gwahoddir grwpiau o fyfyrwyr Diploma Cenedlaethol Uwch, gradd Sylfaen neu radd Anrhydedd i astudio eu graddau Anrhydedd 'ategol' neu symud ymlaen i lwybrau Meistr gyda'r Brifysgol Agored. Maent yn cael gweithdai ymyrraeth misol i'w helpu i symud ymlaen ar eu teithiau dysgu ac, yn y pen draw, gwella eu cyfleoedd mewn bywyd drwy rym trawsnewidiol addysg.

Caiff y rhai sy'n pontio'n llwyddiannus i astudio gyda'r Brifysgol Agored gynnig bwrsari o hyd at £250 i'w helpu i barhau i astudio ac i sicrhau na fyddant yn colli'r cyfle i ennill cymwysterau ac achub ar gyfleoedd i lunio dyfodol mwy disglair. Edrychwn ymlaen at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am eu cynnydd.

alumni.open.ac.uk/NEET

Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd un ddôl ar y tro

Sut y gall atebion naturiol helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd? Mae hwn yn un o'r cwestiynau y mae Partneriaeth Dolydd Gorlifdiroedd y Brifysgol Agored, ynghyd â phartneriaid Safle Bywyd Gwyllt Lleol Long Mead ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Berkshire, Swydd Buckingham a Swydd Rydychen, yn gobeithio ymchwilio iddo drwy gymorth grant sylweddol gan Gronfa 'Fertilise the Future' Ecover. Curodd y tîm dros 700 o brosiectau eraill ledled Ewrop i gipio gwobr enillydd y DU y gystadleuaeth, a bydd yn cael cyllid i adfer 50 o hectarau o ddolydd gorlifdiroedd llawn rhywogaethau ar hyd Afon Tafwys, ac i gasglu tystiolaeth i ddangos eu gwerth fel storffeydd carbon.

Glaswelltiroedd yw dolydd gorlifdiroedd, sy'n darparu lle y mae angen dybryd amdano i lifddwr led. Maent yn cynnig buddiannau niferus, ac yn ogystal â lliniaru'r perygl o lifogydd, maent yn gwella ansawdd dŵr, yn cynyddu storffeydd carbon, yn cefnogi ffermio cynaliadwy ac yn gartref i amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid. Bydd y cyllid hwn yn galluogi'r tîm i adfer a diogelu dolydd gorlifdiroedd, yn ogystal â dangos sut y gellir eu defnyddio fel adnodd allweddol i amddiffyn rhag newid yn yr hinsawdd.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r Brifysgol Agored a'i phartneriaid wedi ymchwilio i ddulliau dal a storio carbon. Er mai'r farn gyffredinol yw mai plannu coed yw'r ateb naturiol mwyaf effeithiol, mae'r tîm yn gobeithio dangos bod dolydd gorlifdiroedd yn fwy effeithiol a dibynadwy. Yna, gallai'r prosiect arloesol hwn ddangos i asiantaethau'r llywodraeth a llunwyr polisiau pa mor hanfodol yw dolydd gorlifdiroedd i amddiffyn rhag newid yn yr hinsawdd yn yr hirdymor.

 **Dysgwch fwy a chefnogwch ymchwil i ddolydd gorlifdiroedd yn y dyfodol**
bit.ly/floodplainsecover

Cymerwch ran yng nghystadleuaeth gelf dolydd 2021 y Brifysgol Agored

Yn galw ar arlunwyr, crefftwyr, a'r rhai sy'n dwlu ar fyd natur – rydym yn eich gwahodd i gymryd rhan yng Nghystadleuaeth Gelf Dolydd Gorlifdiroedd 2021 er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o ddolydd gorlifdiroedd pwysig y DU, sy'n prysur ddiflannu. Wedi eu hariannu gan Ymddiriedolaeth Cefn Gwlad ac Addysgol William Dean a Mrs Judith Pursell, mae gwobrau'r cystadleuaeth yn cynnwys taleb gwerth £250 gan y Cyngor Astudiaethau Maes, a'r cyfle i ymddangos mewn arddangosfa gelf arbennig a chalendr dolydd 2022 arbennig.

 **Y dyddiad cau yw 31 Awst 2021**
bit.ly/artcomp21

Diolch i gefnogwyr ein Partneriaeth Dolydd Gorlifdiroedd, gan gynnwys

- Ecover
- The Esmée Fairbairn Foundation
- The John Ellerman Foundation
- The Halpin Trust
- Mrs Judith Pursell
- Mrs Rachael Webb

Welwn ni chi ar-lein... ymunwch â ni yn ein digwyddiad rhithwir nesaf

Hyd nes y gallwn ddod ynghyd wyneb yn wyneb, gallwch ymuno ag amrywiaeth o ddigwyddiadau rhithwir cyffrous ym mhob rhan o'r Brifysgol. Mae'n ffordd wych o gadw mewn cysylltiad â theulu'r Brifysgol Agored a dysgu rhywbeth newydd drwy sgysiau diddorol gan academyddion, a'r cyfan o gysur eich cartref eich hun.

Er mwyn sicrhau eich bod yn cael gwahoddiadau i'n digwyddiadau nesaf, gwnewch yn siŵr bod gennym

eich cyfeiriad e-bost drwy e-bostio alumni@open.ac.uk a dyfynnu 'Stay in touch'. Drwy roi eich cyfeiriad e-bost i ni, byddwn yn gwneud yn siŵr eich bod yn cael yr holl wybodaeth ddiweddaraf o ran newyddion, digwyddiadau, apeliadau codi arian, ymgyrchoedd a ffyrdd o gymryd rhan, yn syth i'ch mewnflwch.

 **Edrychwch ar y calendr digwyddiadau diweddaraf**
alumni.open.ac.uk/news/events

Trawsnewid bywydau pobl drwy addysg

Un o'r lluo o bethau cadarnhaol am y Brifysgol Agored yn ystod pandemig y Coronafeirws yw ein bod wedi parhau i allu cynnig ysgoloriaethau a bwrsariau i bobl a allai golli'r cyfle i gael addysg uwch fel arall.

Mae Rhoddion mewn Ewyllysiau yn bwysig iawn i'n galluogi i wneud hyn. Maent yn helpu i ddarparu ffynhonnell hanfodol o gyllid, nawr ac yn y dyfodol, sy'n gwneud gwahaniaeth enfawr i'n gwaith ac yn sicrhau y gall addysg barhau yn agored i bawb.

Yn wir, bu cymynroddion yn allweddol wrth helpu'r Brifysgol Agored i sefydlu'r Gronfa Ysgoloriaethau Cyn-filwyr Anabl, yn ogystal â'n Cronfa Dyfodol Agored bellgyrhaeddol. Mae'r mentrau hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar fywydau myfyrwyr, gan eu helpu i drawsnewid eu dyfodol drwy rym addysg. Gall hyn fod o fudd i gymaint.

Gwneud gwahaniaeth sy'n newid bywydau, nawr ac yn y dyfodol

Mae rhoddion a adewir i'r Brifysgol Agored gan bobl yn eu hewyllysiau yn helpu i drawsnewid bywydau myfyrwyr y dyfodol. Yn ogystal â helpu i roi'r cyfle i unrhyw un, yn unrhyw le, ni waeth beth fo'i amgylchiadau, ddysgu, bydd cymynroddion hefyd yn helpu'r Brifysgol Agored i fod yno i'r rhai y mae angen iddynt ailhyfforddi, meithrin sgiliau newydd, neu drawsnewid eu dyfodol drwy addysg.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r cyn-fyfyrwyr a'r cefnogwyr sydd eisoes wedi penderfynu gadael rhodd yn eu hewyllys i'r Brifysgol Agored. Bydd yr effaith gadarnhaol y bydd hyn yn ei chael ar ein cymdeithas yn y dyfodol yn amhrisiadwy, ac ni allwn ddiolch i chi ddigon.

Mae cymynroddion yn helpu i sicrhau bod addysg yn parhau'n agored i bawb

Mae gwybod bod cyn-fyfyrwyr a chefnogwyr wedi gadael rhodd i'r Brifysgol Agored yn eu hewyllys yn ein helpu i deimlo'n fwy hyderus am y dyfodol, gan wybod y caiff bywydau llawer mwy o ddarpar fyfyrwyr y dyfodol eu trawsnewid.

Os hoffech gael cyfle i gael sgwrs anffurfiol â ni am adael rhodd yn eich Ewyllys, e-bostiwch ein Tîm Cymynroddion yn giving@open.ac.uk, neu ffoniwch ni ar 01908 659141. Gyda'ch caniatâd, os byddwch yn penderfynu gadael rhodd i'r Brifysgol Agored yn eich Ewyllys – neu os ydych eisoes wedi gwneud hynny – pan fydd eich rhodd wedi dod i law, hoffem gael y cyfle i gydnabod eich haelioni drwy arysgrifennu eich enw ar blac arbennig yn ein gardd cymynroddion hardd.

Oherwydd y pandemig, nid ydym wedi gallu cynnal digwyddiad i ddadorchuddio placiau 2019 a 2020, ond rydym yn gobeithio y gallwn gynnal digwyddiad yn ddiweddarach eleni, a byddwn yn rhannu'r manylion cyn gynted â phosibl.



OpenMINDS Live!
26 Mai 2021

Ymunwch â ni ar gyfer prynhawn o sgysiaau diddorol a straeon ysbrydoledig gan academyddion a chyn-fyfyrwyr y Brifysgol Agored sy'n llywio ein dyfodol. Byddwch yn clywed yn uniongyrchol gan rai o'r myfyrwyr rydych yn newid eu bywydau, ac yn dysgu mwy am y prosiectau cyffrous sy'n mynd rhagddynt ym mhob rhan o'ch Prifysgol.

Caiff rhagor o fanylion ac enwau'r siaradwyr eu cyhoeddi'n fuan. Gwnewch yn siŵr bod gennym eich cyfeiriad e-bost fel y gallwn anfon eich gwahoddiad yn syth i'ch mewnflwch.


Ymunwch â ni ar gyfer Diwrnod Rhoi'r Brifysgol Agored



36 awr
i drawsnewid
dyfodol
unigolion



Un
gymuned
fyd-eang
y Brifysgol
Agored



Mae ar eich
Prifysgol eich
angen

CHI



YMWUNWCH
Â NI
fel Lluniwr y
Dyfodol



**Edrychwch
i weld sut y
gallwch wneud
gwahaniaeth**

bit.ly/ou-futuremakers

Ydych chi'n barod i helpu i greu hanes gyda'r Brifysgol Agored?

Ar 6 a 7 Gorffennaf, byddwn yn cynnal Diwrnod Rhoi cyntaf erioed y Brifysgol Agored – her 36 awr i godi arian ar gyfer ysgoloriaethau a bwrsariau a fydd yn newid bywydau cyn-filwyr anabl, gofalwyr a myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr y Brifysgol Agored am byth.

Yn awr, yn fwy nag erioed, mae'n hollbwysig bod myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr o bob cefndir yn cael y cyfle i lwyddo a thrawsnewid eu dyfodol. Drwy ddod ynghyd fel teulu byd-eang y Brifysgol Agored mewn un her 36 awr llawn hwyl, gallwn wneud cymaint o fudd a pharhau i ddymchwel y rhwystrau i addysg sy'n llesteirio pobl.

Sut y byddwch yn chwarae eich rhan gyda gweddill teulu'r Brifysgol Agored?

Mae cymaint o ffyrdd y gallwch helpu i godi arian a chymryd rhan. Yn ogystal â rhoi, un ffordd arbennig y gallwch ymuno â ni yw drwy ddod yn un o Lunwyr y Dyfodol y Brifysgol Agored. Mae'r gwirfoddolwyr gwych hyn yn chwarae eu rhan drwy godi arian drwy weithgareddau wedi'u noddi. Gallai fod yn fach neu'n fawr, yn ddigrif neu'n ddifrif, o daith beicio wedi'i noddi i werthu cacennau bach i ffrindiau a theulu. Y peth pwysicaf yw y byddwch, drwy gytuno i fod yn Lluniwr y Dyfodol, yn gwneud rhywbeth cadarnhaol i godi arian ar gyfer prosiectau a fydd yn newid dyfodol pobl.

Peidiwch â phoeni os nad ydych yn siŵr beth yw'r ffordd orau o gymryd rhan. Ar hyn o bryd, dim ond cofrestru eich diddordeb mewn gwirfoddoli fel un o Lunwyr y Dyfodol y Brifysgol Agored y gofynnir i chi ei wneud yn bit.ly/ou-futuremakers. Rydym yn edrych ymlaen at drawsnewid dyfodol rhagor o bobl gyda'ch cymorth chi!

Cysylltwch â ni



**GWNEWCH RODD I'R
GRONFA DYFODOL AGORED**

Ewch i alumni.open.ac.uk
Ffoniwch 01908 655 044

/theopenuniversity
 @theopenuniversity
 @OpenUniversity
 The Open University



**YMHOLIADAU
CYFFREDINOL**

Ewch i giving@open.ac.uk
Ffoniwch 01908 655 044

Ysgrifennwch The Open University
Development Office
Walton Hall
Milton Keynes
MK7 6AA